# Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

**2013 dccc 6**

## RHAN 4

CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

### 49 Manylion cytundebau

(1) Cyn gwneud cytundeb y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo, rhaid i berchennog y safle gwarchodedig roi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd arfaethedig o dan y cytundeb sydd—

(a) yn pennu enwau a chyfeiriadau'r partïon,

(b) yn cynnwys manylion y tir y bydd gan y meddiannydd arfaethedig hawl i osod y cartref symudol arno a'r rheini'n ddigon i adnabod y tir hwnnw,

(c) yn nodi'r telerau datganedig sydd i'w cynnwys yn y cytundeb (gan gynnwys unrhyw reolau i'r safle),

(d) yn nodi'r telerau sydd i'w hymhlygu gan adran 50(1), ac

(e) yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill a bennir drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan is-adran (1) gael ei roi—

(a) heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau cyn dyddiad gwneud unrhyw gytundeb ynglŷn â gwerthu'r cartref symudol i'r meddiannydd arfaethedig, neu

(b) (os na wneir cytundeb o'r fath cyn gwneud y cytundeb y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo) heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau cyn dyddiad gwneud y cytundeb y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo.

(3) Ond os bydd y meddiannydd arfaethedig yn cydsynio mewn ysgrifen i'r datganiad hwnnw gael ei roi erbyn dyddiad ("y dyddiad a ddewiswyd") sy'n llai nag 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a grybwyllir yn is-adran (2)(a) neu (b), rhaid i'r datganiad gael ei roi i'r meddiannydd arfaethedig heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a ddewiswyd.

(4) O ran unrhyw deler datganedig heblaw rheol safle—

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

(a) os yw wedi ei gynnwys mewn cytundeb y mae'r Ddeddf hon yn gymwys iddo, ond

(b) na chafodd ei nodi mewn datganiad ysgrifenedig a roddwyd i'r meddiannydd arfaethedig yn unol ag is-adrannau (1) i (3),

mae'r teler yn anorfodadwy gan y perchennog neu gan unrhyw berson o fewn adran 53(1); ond mae hyn yn darostyngedig i unrhyw orchymyn a wneir gan y corff barnwrol priodol o dan adran 50(3).

(5) Os yw'r perchennog wedi methu rhoi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd yn unol ag is-adrannau (1) i (3), caiff y meddiannydd, ar unrhyw adeg ar ôl i'r cytundeb gael ei wneud, wneud cais i'r corff barnwrol priodol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog—

(a) rhoi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd sy'n cydymffurfio â pharagraffau (a) i (e) o is-adran (1) (a ddarllenir ag unrhyw addasiadau y mae eu hangen i adlewyrchu'r ffaith bod y cytundeb wedi ei wneud), a

(b) gwneud hynny erbyn unrhyw ddyddiad a bennir yn y gorchymyn.

(6) Caniateir i ddatganiad y mae'n ofynnol ei roi i berson o dan yr adran hon gael ei roi i'r person yn bersonol neu ei anfon at y person drwy'r post.

(7) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at wneud cytundeb y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw amrywiad ar gytundeb y mae'r cytundeb yn dod yn gytundeb y mae'r Rhan hon yn gymwys iddo yn ei rinwedd.

(8) Nid yw is-adrannau (2), (3) a (5) yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n meddiannau neu'n bwriadu meddiannu llain dramwy ar safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol; ac yn yr achos hwnnw mae'r cyfeiriad yn is-adran (4) at is-adrannau (1) i (3) i'w drin yn gyfeiriad at is-adran (1).